OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 77

## Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021

## RHAN 6

### Storio tail organig a silwair

**Gwneud neu storio silwair**

**24.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i berson sydd â silwair sy'n cael ei wneud neu ei storio dan ei ofal neu ei reolaeth sicrhau—

(a) bod y silwair yn cael ei gadw mewn seilo sy'n bodloni gofynion Atodlen 5, neu

(b) bod y silwair yn cael ei gywasgu i fyrnau–

(i) sydd wedi eu lapio a'u selio mewn pilennau anhydraidd, neu wedi eu cau mewn bagiau anhydraidd, a

(ii) sydd wedi eu storio o leiaf 10 metr oddi wrth unrhyw ddyfroedd croyw mewndirol neu ddyfroedd arfordirol y gallai elifiant sy'n dianc o'r byrnau fynd i mewn iddynt, neu

(c) os mai cnwd yw'r silwair sy'n cael ei wneud yn silwair maes (hynny yw, silwair sy'n cael ei wneud ar dir agored drwy ddull gwahanol i'r dull byrnau y cyfeirir ato yn is-baragraff (b)), neu os mai silwair sy'n cael ei storio ar dir agored ydyw—

(i) bod CANC yn cael ei hysbysu o'r man lle bydd y silwair yn cael ei wneud neu ei storio o leiaf 14 o ddiwrnodau cyn defnyddio'r fan honno at y diben hwnnw am y tro cyntaf, a

(ii) bod y fan honno o leiaf 10 metr oddi wrth unrhyw ddyfroedd croyw mewndirol neu ddyfroedd arfordirol, ac o leiaf 50 metr oddi wrth fan tynnu dŵr perthnasol agosaf unrhyw ffynhonnell cyflenwi dŵr warchodedig y gallai elifiant silwair fynd i mewn iddynt pe bai'n dianc.

(2) At ddibenion paragraff (1)(c)(ii), mae ffynhonnell cyflenwi dŵr yn ffynhonnell cyflenwi dŵr warchodedig—

(a) os oes unrhyw dynnu dŵr perthnasol o'r ffynhonnell wedi ei drwyddedu o dan Ran 2 o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991(**1**), neu

(b) os yw'r person sy'n gwneud neu'n storio'r silwair yn ymwybodol o leoliad y ffynhonnell—

(i) cyn dechrau ar wneud y silwair, neu

(ii) os gwnaed y silwair mewn man arall, cyn ei storio ar y tir dan sylw.

(3) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i silwair tra ei fod yn cael ei storio dros dro mewn cynhwysydd, ôl-gerbyd neu gerbyd mewn cysylltiad â'i gludo o gwmpas y fferm neu fan arall.

(**1**) 1991 p. 57.

(4) Ni chaiff person sydd â bwrn silwair dan ei ofal neu ei reolaeth agor na symud ymaith yr hyn sy’n lapio’r bwrn o fewn 10 metr i unrhyw ddyfroedd croyw mewndirol neu ddyfroedd arfordirol y gallai elifiant silwair, o ganlyniad, fynd i mewn iddynt.

(5) Yn y rheoliad hwn—

(a) ystyr “tynnu dŵr perthnasol” yw tynnu dŵr ar gyfer ei ddefnyddio—

(i) i’w yfed gan bobl, neu

(ii) at ddibenion domestig (o fewn yr ystyr a roddir i “*domestic purposes*” gan adran 218 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991(**2**)) heblaw at ei yfed gan bobl, neu

(iii) i weithgynhyrchu bwyd neu ddiod i’w fwyta neu i’w yfed gan bobl, a

(b) ystyr “ffynhonnell cyflenwi dŵr” yw dyfroedd croyw mewndirol neu ddyfroedd daear y tynnir dŵr perthnasol ohonynt neu y trwyddedir tynnu dŵr perthnasol ohonynt.

(**2**) 1991 p. 56.